TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

# City & Guilds Diploma mewn Goginio Proffesiynol Lefel 1



**Yn gryno**

Byddwch yn gweithio yng ngheginau a bwytai'r coleg ac yn cael eich hyfforddi at safon diwydiant, yn paratoi prydau ac yn gweini ar y cyhoedd yn ddyddiol.

**Dyma'r cwrs i chi os...**

... Rydych yn mwynhau gweithio dan bwysau

... Rydych eisiau gweithio mewn amgylchedd prysur a heriol

... Rydych eisiau dechrau gyrfa fel pen-cogydd

**Beth fyddaf yn ei wneud?**

Mae'r diwydiant lletygarwch ac arlwyo yn ddewis gyrfa heriol, ond hynod gwerth chweil, sy'n

tyfu'n gyflym.

Mae ein tiwtoriaid i gyd yn gymwys ac yn brofiadol tu hwnt yn eu maes, a byddant yn cynnig y sgiliau sydd eu hangen arnoch chi er mwyn datblygu i'r cwrs Coginio Proffesiynol Lefel 2.

Mae'r pynciau y byddwch yn mynd i'r afael â nhw ar y cwrs yn cynnwys:

Diogelwch Bwyd
Sgiliau Cyflogadwyedd
Iechyd a Diogelwch
Bwyd iachach a dietau arbennig
Cyflwyniad i offer y gegin
Berwi, potsio a stemio
Pobi, rhostio a grilio
Ffrio dwfn a ffrio bas
Adfywio bwyd parod
Paratoi bwyd oer
Crefft coginio proffesiynol
Gwasanaeth bwyty - gwasanaeth bwyd, diod a bar
Sgiliau barista coffi

Mae’r Dystysgrif Gwasanaeth Bwyd a Diod Cyffredinol Lefel 1 yn gymhwyster ychwanegol. Byddwch yn cael profiad o weithio mewn amgylchedd gwaith realistig yng nghegin a bwyty'r campws, sef Morels ar Gampws Crosskeys a Cwtch ym Mharth Dysgu Blaenau Gwent. Byddwch un ai'n coginio neu yn gweini ar gyfer y cyhoedd.

Byddwch yn cael eich asesu mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys:

Asesiadau/aseiniadau ymarferol ac ysgrifenedig
Cyflwyniadau ac arddangosiadau
Portffolios gwaith
Perfformiad ac arsylwi
Arddangos sgiliau ymarferol

A byddwch yn cyflawni'r cymwysterau canlynol:

Coginio Proffesiynol Lefel 1
Sgiliau Gwasanaeth Bwyd a Diod Cyffredinol Lefel 1

[Gweithgareddau Sgiliau]

# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Mathemateg a Saesneg
Cymwysterau perthnasol eraill i gyfoethogi eich set sgiliau

**Beth a ddisgwylir ohonof i?**

I gofrestru ar y cwrs hwn, bydd angen o leiaf 3 TGAU gradd G neu uwch arnoch i gynnwys Mathemateg/Rhifedd a Saesneg/Cymraeg Iaith 1af neu gymhwyster Lefel Mynediad priodol. Bydd ymgeiswyr heb yr isafswm TGAU yn cael eu hystyried ar sail profiad blaenorol neu gymwysterau eraill.

Mae'n rhaid i chi ddangos brwdfrydedd dros y diwydiant lletygarwch ac arlwyo. Bydd angen i chi fod yn hunan-gymhellol, yn weithgar ac yn rhifog, a bod â phersonoliaeth gyfeillgar. Mae presenoldeb a phrydlondeb ar gyfer pob sesiwn yn un o'r ofynion mwyaf pwysig y cwrs hwn a bydd gofyn i chi hefyd fynychu lleoliad gwaith wythnosol neu waith bloc.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Diploma Lefel 2 mewn Coginio Proffesiynol a/neu Lefel 2 mewn Gwasanaeth Bwyd a Diod (yng Nghampws Crosskeys) NVQs yn y gweithle mewn meysydd sy'n ymwneud â choginio proffesiynol, gwasanaeth bwyd a diod, gwasanaeth blaen ty, gwasanaeth cwsmer a gwasanaethau cegin.

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Bydd gofyn ichi brynu offer llawn, dillad cogydd a gwisg y bwyty a fydd yn costio tua £230.00, a bydd angen £50.00 ar gyfer manion.